afon Rhymni ac felly yn sir Forgannwg.

Ond yn Sir Fynwy y dewisodd fyw, ac yn 1826 cododd dŷ a swyddfa iddo ef ei hun ar lan ddwyreiniol yr afon ac enwyd y pentre a dyfodd yn y fan honno ar ôl y tŷ - Maesycwmwr.

Agorwyd y wasg yno flwyddyn yn ddiweddarach. Yr oedd John Jenkins eisoes yn berchen ar wasg ym Merthyr, gyda Thomas Williams, Gwilym Morgannwg, yn bartner iddo.

Eu bwriad wrth sefydlu'r wasg honno yn 1819 oedd cyhoeddi sylwebaeth ar y Beibl. Ymddangosodd y sylwebaeth dros gyfnod o ddeng mlynedd neu ragor, ac ym Maesycwmwr yr argraffwyd y rhannau olaf.

Ni thorrodd John Jenkins ei gysylltiad â Merthyr wrth symud i Faesycwmwr, a rhwng y ddwy ganolfan bu'n gyfrifol am gyhoeddi llawer o lyfrau a phamffledi Cymraeg.

Ym Maesycwmwr yr argraffwyd 6 rhifyn ola *Cyfrinach y Bedyddwyr*, cylchgrawn o dan olygyddiaeth J.J. Argraffwyd *Y Bedyddiwr* yma am gyfnod, ynghyd ag un arall o'i weithiau pwysig, *Esponiad ar Salm cant trideg*.

Daeth ei fab, Llewelyn, i'w ddilyn e' yn y busnes, a phan symudwyd y wasg i Gaerdydd yn 1831, Llewelyn oedd yn gyfrifol am y gwaith i gyd, gan gyhoeddi yn ystod y blynyddoedd nesaf, *Greal y Bedyddwyr, Ystorfa'r Bedyddwyr, Y Gwir Fedyddiwr* a'r *Bedyddiwr*, ynghyd â chylchgrawn Urdd yr Odyddion, *Yr Odydd Cymreig*, a sefydlwyd gan Brychan.

* * *

YN YR un flwyddyn ag yr agorodd John Jenkins ei wasg ym Maesycwmwr, symudodd Richard Jones, gŵr o Ddolgellau, i Bont-y-pŵl gan agor gwasg yno. Cyhoeddodd *Y Blagurun* gan y Parch David Owen (Brutus), cyn symud i Ferthyr a dod yn bartner gyda Thomas Williams (Gwilym Morgannwg) a John Jenkins yno. Gwerthodd y wasg ym Mhont-y-pŵl i William Rowlands, pregethwr cynorthwyol gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac ysgol-feistr - gyda llaw, yn dysgu yn yr un ysgol â'r Parch Evan Evans, Nant-y-glo, tad Beriah Gwynfe Evans.

Yn 1829 argraffwyd *Yr Athraw* ym Mhont-y-pŵl, ond flwyddyn yn ddiweddarach bu'n rhaid i William Rowlands ymfudo i'r Amerig ar ôl gwneud colled fawr drwy fuddsoddi ei arian mewn menter i suddo gwaith glo ger y Coed-duon. Ond parhaodd y traddodiad o argraffu yn Gymraeg yn y dref gyda gweisg Evan Prosser ac yn nes ymlaen Henry Hughes, sefydlydd y wasg oedd yn rhagflaenydd y Pontypool Free Press.

Agorwyd gwasg arall yn y dref gan Thomas Bevan Oliver, ac yn ystod y 1840au cyhoeddwyd amryw o bregethau Cymraeg ganddo. Yn y cyfnod dilynol hyd at 1870 bu gweisg eraill gan Edward Harry a William Edwards (ysgolfeistr arall), yn cyhoeddi llyfrau Cymraeg ym Mhont-y-pŵl.

Sylwch taw pobl ddwad oedd llawer o'r argraffwyr a'r cyhoeddwyr 'wy wedi sôn amdanyn nhw hyd yn hyn, ac mae hynny i'w ddisgwyl wrth ystyried y modd yr oedd y gweithfeydd yn denu poblogaeth yn y cyfnod.

Gŵr o Sir Fôn oedd John Thomas. Daeth i Dredegar i weithio fel mwynwr ond dechreuodd ddosbarthu a gwerthu llyfrau, ac yn 1854 agorodd ef a'i fab wasg - y cynta yng Nghymru i ddefnyddio india rubber i osod llythrennau medden nhw.

Argraffwyd llawer o lyfrau Cymraeg gan y wasg hon a fu'n gweithio tan 1893 pan fu farw'r mab.

Ac nid dyma'r unig wasg yn Nhredegar chwaith. Roedd 'na dair gwasg yno i gyd, sef gwasg John Thomas a'i fab, gwasg Thomas Gibbon a sefydlwyd yn 1848. Dyma lle'r argraffwyd *Y Diwygiwr Wesleaidd* am gyfnod ynghyd â nifer o bamffledi a llyfrau, er enghraifft *Y Weithred o Fedyddio* gan Iorwerth Glan Aled.

Agorwyd y drydedd wasg yn 1859, gwasg a sefydlwyd pan symudodd William Harris, brawd Joseph Harris (Gomer) i'r dref. Yma yr argraffwyd *Yr Athrawydd*, cylchgrawn i ddysgu darllen.

Bu William Harris yn Nhredegar tan 1865 pan ddaeth y wasg o dan ofal Daniel Morgan, gŵr ifanc lleol a ddysgodd ei grefft gyda Mr Jacobs, sefydlydd gwasg Rhymni yn ddiweddarach.

* * *

ALLA' I ddim â gadael Tredegar heb sôn am Brychan, un o gymeriadau mwya' lliwgar bywyd diwylliannol yr ardal yn y cyfnod. Fel y gellwch ddyfalu o'i enw barddol, roedd e'n enedigol o Sir Frycheiniog, ond symudodd ei deulu i Dredegar pan fu farw'i dad, a chafodd waith o dan ddaear.

Rhywbryd roedd Brychan wedi treulio cyfnod yn Abertawe, ac yno mae'n debyg y dysgodd ddarllen ac ysgrifennu. Radical oedd e' o ran ei wleidyddiaeth, a daeth o dan ddylanwad Iolo Morganwg, a derbyniwyd e' i'r orsedd gan Iolo yn 1818.

Roedd Brychan yn gyfrannwr cyson i'r cyfnodolion. Doedd neb yn fwy brwdfrydig nag ef pan ymddangosodd *Seren Gomer*.

Bu'n weithgar gyda'r Cymreigyddion ar hyd ei oes - bu'n athro yn Llanofer am gyfnod ac yn ysgrifennydd Cymreigyddion y Fenni, er iddo wedyn ymddiswyddo oherwydd Seisnigrwydd y gymdeithas honno.

Sefydlodd gymdeithas Gymreigyddol newydd yn Nhredegar yn 1845, ond ei brif gyfraniad falle oedd ei waith fel trefnydd Cymdeithas Les yr Odyddion. Fe oedd yn gyfrifol am sefydlu'r Urdd honno yng Nghymru, am gyfieithu a threfnu argraffu'r rheolau ac am sefydlu'r cylchgrawn *Yr Odydd Cymreig* yn 1831.

Doedd dim gwasg ganddo ond bu am flynyddoedd lawer yn gyhoeddwr ac yn llyfrwerthwr. Golygodd nifer o flodeugerddi o waith baledwyr a beirdd lleol - y cynta' oedd *Llais Awen Gwent a Morgannwg* - a argraffwyd ym Merthyr yn 1824.

Un o'i gyfrolau mwyaf diddorol yw'r gyfrol o lythyrau a olygodd, llythyrau gan ddau gyfaill iddo a ymfudodd i'r Amerig, sef *Newyddion Da o Wlad Bell* (830).

Mae dyddiaduron Brychan yn werthfawr iawn - yn rhoi darlun byw inni o brysurdeb diwylliannol y cyfnod - o holl weithgarwch y Cymreigyddion a'r cymdeithasau Lles, y gwasanaethau, y darlithoedd, y cyfarfodydd cystadleuol ac ati, a hefyd fe gawn syniad o'r math o gylchgronau a'r llyfrau a werthwyd ganddo - er nad yw'r wybodaeth honno'n gyflawn nac yn drefnus.

Yn ogystal â chofnodion enwadol a llyfrau crefyddol Cymraeg, arferai ddosbarthu papurau newydd Cymraeg America a gwerthu llyfrau Saesneg - a derbyniai hefyd y *Northern Star*, papur y Siartwyr o Leeds.

* * *

ROEDD NIFER o'r llyfrau a werthwyd gan Brychan wedi'u hargraffu'n lleol. Wrth gwrs roedd Merthyr (dros y ffin yn Sir Forgannwg) yn ganolfan argraffu bwysig ac argraffwyd nifer o'r llyfrau a'r pamffledi gan awduron lleol yno, hefyd yn y wasg yng Nghrughywel dros y ffin arall yn Sir Frycheiniog.

Ond roedd gweisg sir Fynwy'n gynhyrchiol hefyd. Erbyn ail hanner y ganrif roedd 'na weisg wedi'u sefydlu yn y mwyafrif o brif drefi'r Blaeneudir. Sefydlwyd gwasg ym Mrynmawr gan y Parch David Stephenson, gweinidog lleol, yn 1838, ac yma yr argraffwyd nifer o weithiau crefyddol a moesol gan awduron lleol, *Hanes Bywyd yr Oferddyn* gan ryw Abraham Jenkins, fel enghraifft.

Sefydlwyd ail wasg ym Mrynmawr gan Thomas Roderick o Benuwch, Llangeitho, Ceredigion. Yma yr argraffwyd *Ffordd Duw yn y Cyssegr a'r Môr* gan Evan Evans Nant-y-glo yn 1842 a *Golwg ar Grefydd Naturiol* yn 1845. Bu farw Thomas Roderick yn 1850 a daeth ei frawd yng nghyfraith, John Davies, eto o Benuwch, i gynorthwyo ei weddw yn y busnes. Ar y wasg hon yr argraffwyd *Yr Ymgeisydd*, misolyn y Methodistiaid, o dan olygyddiaeth Islwyn a Dewi Wyn o Esyllt yn y 1860au.

Bu mab Thomas Roderick, Stephen, a'i fab yntau, Thomas Roderick (yr ail) yn cadw argraffdy yn Mrynmawr tan droad y ganrif hon.

Ym 1868 symudodd John Davies (brawd yng nghyfraith y Thomas Roderick cyntaf), i agor gwasg yn Nglynebwy, ac ar ôl ei farwolaeth e' daeth Llewelyn Parry Lewis, gŵr o Lanymddyfri yno. Dysgodd Llewelyn Lewis ei grefft tra'n brentis i'r Parch William Roberts (Nefydd), gweinidog y Bedyddwyr yng nghapel Salem Blaenau Gwent. Roedd Nefydd wedi sefydlu'r wasg yn y dre' yn 1864 yn y gobaith o gyhoeddi hanes enwad y Bedyddwyr.

Argraffwyd *Y Bedyddiwr* gan Nefydd am bedair blynedd ac un rhifyn o *Seren Gomer*, sef Ebrill 1864, ond mae'n debyg os edrychwch chi ar y rhifyn hwnnw fod Nefydd wedi gwneud camgymeriad ac wedi argraffu Ebrill 1865 yn lle '64 arno.

Roedd Nefydd wrth gwrs yn un o weinidogion amlycaf yr ardal, yn wir, yn un o weinidogion mwyaf adnabyddus Cymru yn y cyfnod. Gŵr o sir Ddinbych oedd e' ond bu'n weinidog yn y Blaenau am bron i ddeng mlynedd ar hugain.

Yn ystod y cyfnod hwnnw bu'n flaenllaw ym mywyd cymdeithasol a llenyddol y cylch fel llenor a bardd, beirniad ac arweinydd eisteddfodau a threfnydd ysgolion. Casglodd lyfrgell eang ac ymddiddorai mewn llenyddiaeth a hanes. Cyhoeddwyd rhai o'i draethodau eisteddfodol buddugol, yr enwocaf efallai yw *Crefydd yr oesoedd tywyll* sy'n disgrifio hen arferion a thraddodiadau'r hen Gymry.

Wrth gwrs, condemnio'r fath arferion paganaidd a wnai Nefydd, oherwydd ymdrech fawr ei fywyd oedd gwneud yr hyn a allai i ddyrchafu'r genedl mewn addysg, crefydd a moesoldeb.

* * *

A CHYMRYD *Seren Gomer* fel enghraifft unwaith eto, ar un adeg roedd y *Seren* bron yn gyfangwbl o dan ofal gweinidogion o Sir Fynwy, ac adlewyrchwyd hyn yng nghynnwys y cylchgrawn.

Yn y pumdegau roedd yr adran ddiwinyddol a chofiannol o dan olygyddiaeth y Parch James Rowe o Pisga, yr adran gelfyddyd a hynafiaeth o dan ofal Nefydd, yr adran Farddonol o dan ofal y Parch Evan Jones (Gwrwst), Casbach tan 1859 pan ddilynwyd ef yn y gwaith gan y Parch Robert Ellis (Cynddelw), Sirhywi. Y Parch D. Llwyd Isaac, Pontypŵl oedd yn gyfrifol am wladyddiaeth a chrefydd yn y blynyddoedd hyn, tra mai'r Parch Benjamin Price (Cymro Bach), Gofeilon oedd gohebydd y genhadaeth. A'r gweinidogion oedd prif gynheiliaid yr iaith a'r diwylliant a'r wasg.

*I'w Barhau*